Canllaw i Brosiect Dementia Cysylltu Bywydau

Cysylltu Bywydau

De-ddwyrain Cymru

Gweithio mewn Partneriaeth:

Caerffili, Casnewydd, Merthyr Tudful,
Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Thorfaen

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Beth yw Prosiect Dementia Cysylltu Bywydau?

Mae Prosiect Dementia Cysylltu Bywydau yn cynnig cyfle i bobl sy'n byw gyda dementia gael gafael ar gymorth hyblyg a phersonol yn ystod y dydd a seibiannau dros nos mewn amgylchedd cyfeillgar, cartrefol, naill ai yn eu cymuned leol neu mewn ardal gyfagos ledled De-ddwyrain Cymru.

Ar ôl i atgyfeiriad ddod i law, dyrennir Gweithiwr Cysylltu Bywydau a fydd yn ymweld â'r unigolyn i gasglu gwybodaeth ar gyfer ei Gynllun Personol. Bydd y Cynllun Personol hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'n gofalyddion o bwy yw'r person, y gweithgareddau yr hoffai ymgymryd â nhw, ei anghenion gofal a chymorth, a sut y byddai'n well ganddo i'r cymorth hwn gael ei ddarparu.

Yna byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i baru'r unigolyn â'r gofalydd Cysylltu Bywydau mwyaf priodol ac yn trefnu iddynt gwrdd â'i gilydd i'w helpu dod i adnabod ei gilydd a sicrhau bod gan y gofalydd y sgiliau cywir i ddarparu'r cymorth. Yna bydd gan yr unigolyn gysylltiad â'r gofalydd o'i ddewis sy'n rhoi sicrwydd a pharhad gofal gyda'r un person.

Mae Prosiect Dementia Cysylltu Bywydau yn Anelu at:

- Darparu ymyrraeth gynnar i bobl sy'n byw gyda dementia drwy eu helpu drwy gydol eu taith dementia i gynnal cysylltiadau yn eu hardal leol drwy gyrchu gweithgareddau cymunedol o'u dewis.
- Atal unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol drwy gynorthwyo pobl i gynnal sgiliau, diddordebau a chysylltiadau cymdeithasol er mwyn byw cystal â phosibl cyhyd â phosibl â dementia.
- Galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach drwy helpu gofalyddion teulu i barhau i ofalu am eu perthnasau ac atal prinder gofalyddion.
- Atal derbyniadau i'r ysbyty ac anghenion gofal a chymorth rhag cynyddu a helpu rhyddhau o'r ysbyty.
- Cynnig seibiant yng nghartref y gofalydd Cysylltu Bywydau fel dewis arall yn lle gofal preswyl.
- Helpu pobl sydd â chynlluniau gofal diwedd oes.

Ar gyfer pwy ydyw?

Mae ein Prosiect ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a fyddai'n elwa o dderbyn cymorth hyblyg, cyfeillgar a phersonol yn eu cymuned leol neu ardal gyfagos ledled De-ddwyrain Cymru.

Mae ein Prosiect hefyd yn helpu teuluoedd a phrif ofalyddion drwy roi seibiant iddynt o'u rolau gofalu gyda thawelwch meddwl bod eu perthynas yn cael gofal da gan ofalydd cymeradwy Cysylltu Bywydau o'u dewis.

Pwy yw'r Gofalyddion Cysylltu Bywydau?

Mae ein gofalyddion Cysylltu Bywydau yn cael eu recriwtio o'r gymuned leol ac yn mynd drwy broses asesu a chymeradwyo drylwyr. Maen nhw'n derbyn hyfforddiant a goruchwyliaeth reolaidd gan y tîm Cysylltu Bywydau. Maen nhw'n cael eu talu am y trefniadau maen nhw'n eu darparu ac yn cynnig cymorth naill ai yn eu cartref eu hunain neu maen nhw'n defnyddio eu cartref fel canolfan ac yn darparu cymorth yn y gymuned leol.

Mae gofalyddion Cysylltu Bywydau yn dod o bob cefndir ac mae ganddyn nhw wir ddiddordeb mewn helpu eraill a nod cyffredin o ddarparu cymorth cadarnhaol i unigolion yn eu cymuned.

Cyflawnir y Prosiect Dementia gan Gynllun Cysylltu Bywydau De-ddwyrain Cymru, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn awdurdod arweiniol. Ariennir y Prosiect gan Lywodraeth Cymru drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent.

I ddarganfod rhagor am y Cynllun, gallwch:

Ffonio: **01443 864784** neu e-bostio: **lleolioedolionl@caerffili.gov.uk**

Ewch i'n gwefan:

www.caerffili.gov.uk/cysylltubywydau

Gweithio mewn Partneriaeth:

Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Merthyr Tydfil County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Torfaen County Borough / Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor monmouthshire County Council / sir fynwy

Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd